OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 (O.S. 2018/1173 (Cy. 237)) ("Gorchymyn 2018"). Mae'n mewnosod tri chorff newydd yn y rhestr o gyrff dynodedig a gynhwysir yn yr Atodlen i Orchymyn 2018. Y cyrff hyn yw Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac International Business Wales Limited.

Effaith y diwygiad hwn yw y bydd yr adnoddau y disgwylir i'r cyrff a restrir uchod eu defnyddio yn cael eu cynnwys o fewn Cynnig Cyllidebol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2019

*Gwnaed* *27 Tachwedd 2019*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *29 Tachwedd 2019*

*Yn dod i rym* *1 Ionawr 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 126A(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**).

Yn unol ag adran 126A(4) a (6) o'r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Trysorlys, pan feddyliant fod hynny'n briodol, ac mae'r Trysorlys wedi cydsynio i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ionawr 2020.

### Diwygiadau i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodlen (Cyrff Dynodedig), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

(**1**) 2006 p. 32. Mewnosodwyd adran 126A gan adran 44(2) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 (p. 25).

(**2**) O.S. 2018/1173 (Cy. 237).

“Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)”

“Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru”

“International Business Wales Limited”.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
27 Tachwedd 2019